

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Awdurdodiadau) (Cymru) 2022.

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a chaiff ei osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Dirprwy Weinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Awdurdodiadau) (Cymru) 2022.

Lynne Neagle AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
27 Ebrill 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

1. Diben yr offeryn hwn yw awdurdodi rhoi naw organeb a addaswyd yn enetig (GMO) ar y farchnad i'w defnyddio fel bwyd a bwyd anifeiliaid, gan ganiatáu iddynt gael eu dosbarthu a'u gwerthu yng Nghymru. Cyfeirir at y GMOs a enwir yn yr Offeryn Statudol.
2. Mae'r offeryn hwn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer amodau'r awdurdodiad, odanynt y gellir defnyddio'r naw GMO yng Nghymru.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

3. Mae diwydiant bwyd anifeiliaid Prydain Fawr wedi mynegi pryderon i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) am risgiau i gyflenwadau oherwydd y rhyfel yn Wcráin. Roedd Wcráin yn un o brif allforwyr indrawn cyn y rhyfel, a heb y cyflenwad hwnnw, mae'r diwydiant yn chwilio am ddewisiadau amgen. Gan fod wyth o'r naw GMO a awdurdodwyd gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ym mis Mawrth yn gynhyrchion indrawn, mae'r ASB yn bwriadu sicrhau bod deddfwriaeth sy'n awdurdodi'r cynhyrchion yn dod i rym cyn gynted â phosib. Bydd yr offeryn (a'r offeryn statudol cyfatebol yn Lloegr) yn dod i rym ar 20 Mai.
4. Bydd yr offeryn statudol cyfatebol yn yr Alban yn dod i rym ar 31 Mai. Mae awdurdodiadau GMOs yn ddilys am ddeng mlynedd. Oherwydd egwyddorion mynediad i'r farchnad Deddf Marchnad Fewnol y DU, bydd y naw GMO yn gallu cael eu marchnata ar draws Prydain Fawr o 20 Mai hyd nes y daw eu hawdurdodiad i ben ddeng mlynedd ar ôl y dyddiad y daethant i rym yn yr Alban.

3. Y cefndir deddfwriaethol

5. Cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid y mae angen eu hawdurdodi cyn eu rhoi ar y farchnad yw cynhyrchion rheoleiddiedig¹.
6. O 1 Ionawr 2021 ymlaen, mae Prydain Fawr wedi bod yn gyfrifol am asesiadau risg ac awdurdodiadau cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig.

¹ Mae cynhyrchion rheoleiddiedig yn cynnwys hydoddyddion echdynnu, ychwanegion bwyd anifeiliaid, ychwanegion bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol (PARNUTS), prosesau dadwenwyno, cyflasynnau, deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, ychwanegion bwyd, ensymau bwyd, bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig, bwydydd newydd a chyflasynnau mwg.

7. Yng Nghymru, yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) sy'n gyfrifol am asesu risg cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig, tra bod Gweinidogion Cymru (fel yr 'awdurdod priodol' mewn perthynas â Chymru) yn gwneud penderfyniadau ar awdurdodiadau.
8. Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer awdurdodi GMOs i'w defnyddio fel bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'i gynnwys yn Rheoliad (CE) Rhif 1829/2003 ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig. Mae awdurdodiadau yn ddilys am ddeng mlynedd. Ar ôl y cyfnod hwn, gall deiliaid awdurdodiad wneud cais i adnewyddu'r awdurdodiad ar gyfer marchnata parhaus.
9. Bydd yr ASB yn diweddarau'r gofrestr o fwydydd a bwydydd anifeiliaid GM awdurdodedig ar ran Gweinidogion Cymru, fel sy'n ofynnol gan Erthygl 7(4) o Reoliad a ddargedwir 1829/2003.
10. Mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

4. Pwrpas y ddeddfwriaeth a'i heffaith fwriadedig

11. Diben yr offeryn yw awdurdodi rhoi'r naw GMO ar y farchnad at ddibenion bwyd a bwyd anifeiliaid, mewn perthynas â Chymru.
12. Mae'r naw GMO yn cynnwys ceisiadau newydd (4) a cheisiadau am adnewyddiad (4) ar gyfer Indrawn a Addaswyd yn Enetig ac un cais newydd ar gyfer Ffa Soia a Addaswyd yn Enetig. Mae'r ceisiadau hyn ar gyfer bwyd a chynhwysion bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys neu sydd wedi'u cynhyrchu gan ddefnyddio GMOs, yn ogystal â chynhyrchion eraill sy'n cynnwys y GMOs. Nid oes unrhyw gynnig i awdurdodi'r GMOs ar gyfer amaethu.
13. Pan oedd yn Aelod-wladwriaeth o'r UE, derbyniodd y DU asesiadau Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) i gefnogi awdurdodiadau cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig. Ers diwedd y cyfnod pontio, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban wedi mabwysiadu'r un canllawiau technegol, trefniadau llywodraethu a phrosesau sicrhau ansawdd er mwyn gwneud asesiadau risg annibynnol ar gyfer Prydain Fawr. Lle bo'r EFSA, cyn diwedd y cyfnod pontio, wedi gwerthuso cais ar gyfer cynnyrch y mae cais hefyd wedi'i wneud ar ei gyfer ym Mhrydain Fawr, mae'r ABB/Safonau Bwyd yr Alban wedi penderfynu defnyddio asesiad risg yr EFSA, lle bo hynny'n briodol, wrth ffurfio eu barn annibynnol eu hunain.

14. Mae pob un o'r naw GMO wedi cael barn asesiad risg gadarnhaol gan yr ASB. Adolygwyd asesiadau risg yr EFSA, a luniwyd mewn perthynas â'r ceisiadau am y naw cynnyrch tra oedd y DU yn rhan o'r UE, gan Gyfarwyddiaeth Gwyddoniaeth, Tystiolaeth ac Ymchwil yr ASB (SERD) i sicrhau eu priodoldeb ar gyfer Prydain Fawr. Ers hynny mae pob un o'r naw GMO wedi'u hawdurdodi i'w defnyddio fel bwyd/bwyd anifeiliaid yn yr Undeb Ewropeaidd/Gogledd Iwerddon. Mae'r telerau awdurdodi arfaethedig yng Nghymru yr un fath â'r rheiny ar gyfer awdurdodi cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid yn yr UE/Gogledd Iwerddon.
15. Mae'r offeryn hwn yn berthnasol i Gymru.
16. Mae deddfwriaeth gyfatebol yn cael ei llunio mewn perthynas â Lloegr a'r Alban.

5. Ymgynghoriad

17. Ar 30 Tachwedd 2021 lansiodd yr ASB ymgynghoriad tair-gwlad ar ffactorau cyfreithlon eraill sy'n berthnasol i'r naw GMO sydd i'w defnyddio fel bwyd a bwyd anifeiliaid (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon). Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol wyth-wythnos, a ddaeth i ben ar 25 Ionawr 2022. Lansiodd ymgynghoriad cyfochrog hefyd gan Safonau Bwyd yr Alban yn ystod y cyfnod hwn.
18. Cafwyd cyfanswm o 112 o ymatebion i ymgynghoriadau'r ASB (76) a Safonau Bwyd yr Alban (36). Denodd y ddau ymgynghoriad ymatebion gan y diwydiant, sefydliadau anillywodraethol (NGOs) ac unigolion. O'r 76 o ymatebion a ddaeth i law yr ASB, roedd naw o blaid awdurdodi a 67 yn ei erbyn. Roedd pob un ond un o'r ymatebwyr wedi'u lleoli yn y DU. O'r 36 o ymatebion a ddaeth i law Safonau Bwyd yr Alban, roedd 3 o blaid awdurdodi a 33 yn ei wrthwynebu. Cyflwynodd dau ymatebydd ymateb i ymgynghoriad yr ASB a FSS fel ei gilydd; roedd y ddau ymateb hyn gan unigolion ac roeddent yn negyddol.
19. O'r 76 o ymatebwyr i'r ASB, roedd dau wedi'u lleoli yng Nghymru. Roedd NFU Cymru (sydd ag amcangyfrif o 15,000 o aelodau) o blaid yr awdurdodiadau, heb nodi unrhyw bryderon diogelwch, a chan nodi bod argaeledd y cynydau hyn fel rhan o ddeiet cytbwys ar gyfer da byw Cymru yn bwysig. Roedd yr ymateb hefyd yn nodi bod cyfran fawr o aelodau NFU Cymru yn dibynnu ar fwyd protein wedi'i fewnforio i anifeiliaid sy'n cynnwys indrawn a chynhyrchion soia GMO er mwyn rhoi'r maeth gorau posib i anifeiliaid ar yr un pryd â chynnal busnesau sy'n economaidd hyfyw, ac y bydd unrhyw darfu ar y fasnach fyd-eang mewn cynhwysion a chynhyrchion bwyd anifeiliaid yn effeithio ar fusnesau fferm ac, yn y pen draw, ddefnyddwyr.
20. Cafwyd yr ail ymateb, a oedd yn negyddol, gan fusnes unigol yng Nghymru, a gododd bryderon ynghylch yr effeithiau amgylcheddol, lles pryfed yn y gwledydd lle caiff y cynydau eu tyfu, ac ymwrthedd cynydau i bladdwyr. Fe wnaethant hefyd gyfeirio at ymwybyddiaeth o sefydliadau

annibynnol sydd wedi beirniadu asesiadau risg yr EFSA. Cafwyd ymateb negyddol i ymgynghoriad Safonau Bwyd yr Alban gan ffermwr organig yn Aberystwyth, a ddadleuodd dros gynhyrchu bwyd heb fod angen ei drin yn gemegol neu yn enetig.

21. Ystyriwyd pryderon rhanddeiliaid yn drylwyr gan yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban. Ceisiodd swyddogion polisi'r ASB gyngor gan Gyfarwyddiaeth Gwyddoniaeth, Tystiolaeth ac Ymchwil yr ASB (SERD) i adolygu ymatebion gwyddonol a ddarparwyd mewn perthynas â safbwyntiau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban. Cynhaliwyd trafodaethau pedair-gwlad (yr ASB yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a Safonau Bwyd yr Alban), yn unol â'r Fframwaith Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Cyffredin dros dro i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon posib.
22. Ni chodwyd unrhyw faterion gan rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad a fyddai'n newid argymhelliad yr ASB i Weinidogion Cymru.
23. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac ymatebion yr ASB, wedi'u cyhoeddi ar [wefan yr ASB](#)

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

24. Mae'r ASB wedi asesu'r effeithiau a fyddai'n deillio o awdurdodi'r GMOs hyn. Roedd yr effeithiau a ystyriwyd yn cynnwys y rheiny a gafodd eu nodi amlaf fel effeithiau posib wrth gyflwyno neu ddiwygio cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid (er enghraifft, Gwaith Cyflenwi Awdurdodau Lleol, Iechyd, yr Amgylchedd, Twf, Arloesi, Masnach, Cystadleuaeth, Buddiannau Defnyddwyr, neu Fusnesau Bach a Micro). Ni wnaeth yr ASB nodi unrhyw effeithiau arwyddocaol, felly ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn.
25. Yn gyffredinol, nododd yr ASB y dylai awdurdodi'r cynhyrchion hyn arwain at fwy o gystadleuaeth yn y farchnad, gan gefnogi twf ac arloesi yn y sector.
26. Anogwyd rhanddeiliaid i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posib yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac ni chodwyd unrhyw effeithiau.

7. Adolygiad ôl-weithredu

27. Bydd yr offeryn hwn yn cael ei adolygu trwy'r cynlluniau monitro ar gyfer effeithiau amgylcheddol, y mae'n ofynnol eu gweithredu yn unol â phob un o'r naw awdurdodiad GMO.
28. Rhaid i ddeiliad yr awdurdodiad sicrhau bod y cynllun monitro ar gyfer effeithiau amgylcheddol, fel y'i cyflwynwyd yn ei gais i'r awdurdod priodol, yn cael ei roi ar waith. Rhaid i ddeiliad yr awdurdodiad gyflwyno

adroddiadau blynyddol ar weithrediad a chanlyniadau'r gweithgareddau a nodir yn y cynllun monitro i'r Awdurdod Diogelwch Bwyd.

29. Mae Rheoliad a Ddargedwir 1829/2003 yn nodi bod awdurdodiadau GMO yn ddilys am ddeng mlynedd. Ar ôl y cyfnod hwn bydd angen adnewyddu'r awdurdodiad ar gyfer marchnata parhaus.
30. Mae Erthyglau 11(1) a 23(1) o Reoliad a Ddargedwir 1829/2003 yn nodi bod rhaid i gais am adnewyddiad ddod i law'r awdurdod priodol o leiaf flwyddyn cyn y dyddiad y daw'r awdurdodiad i ben.